COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU Y CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 3 GYNT) A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD LLUN, 8 RHAGFYR 2025 AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | N Clarke | O Clatworthy | MJ Williams |
| T Wood | | | |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | C Davies | W J Kendall | J E Pratt |
| G Walter | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

GC Haines ac I Williams

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau |
| Delyth Webb | Rheolwr Grŵp – Adfywio Strategol |
| Jacob Lawrence | Prif Swyddog Adfywio |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu dros dro |
| Oscar Roberts | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd N Clarke – Eitem 4 – Personol – Gwirfoddolwr gyda'r RNLI.
Y Cynghorydd J E Pratt – Eitem 4 – Rhagfarnus – Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

## 124. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD**:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai dyddiedig 29 Medi 2025 a 3 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Rhagfyr 2025 |

## 125. Adfywio Porthcawl

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD**:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch digonolrwydd meddygon teulu a gallu'r Ganolfan Feddygol i ateb y galw cynyddol I ddarparu gofal iechyd ym Mhorthcawl yn dilyn y cynnydd a ragwelir yn nifer yr eiddo preswyl ar y datblygiad arfaethedig, ac **argymhellodd** y dylid anfon llythyr oddi wrth y Pwyllgor at Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn nodi'r pryderon hyn a'r angen am gydweithrediad, cyfathrebu a phartneriaeth agos rhwng Llywodraeth Cymru, y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau bod digon o wasanaethau meddygol yn cael eu darparu'n ddirwystr ym Mhorthcawl.<br><br>**Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol:**<br><br>2. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i'r cyflwyniad a gafwyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau ar ddechrau'r cyfarfod gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>3. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i fanylion yr adroddiad modelu traffig oedd yn gysylltiedig â'r datblygiad gael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>4. Bu'r Pwyllgor yn trafod eglurder ynghylch statws cyfreithiol Parc Griffin a **gofynnodd** i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau baratoi papur ysgrifenedig ar gyfer yr Aelodau yn cynnwys manylion statws elusennol ac unrhyw gyfamodau hanesyddol oedd yn gysylltiedig â'r tir hwnnw ynghyd â dolen gyswllt i'r adroddiad a'r penderfyniad yn dilyn Galw Penderfyniad y Cabinet i Mewn: Adfywio Glannau |

| | |
|---|---|
| | Porthcawl: Neilltuo Tir ym Mharc Griffin a Bae Sandy, a ystyriwyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 ar 3 Tachwedd 2022.<br><br>5. O ystyried yr adroddiad posibl yn y dyfodol i'r Cabinet ynghylch cyllid ymlaen llaw ar gyfer gwaith parth cyhoeddus y datblygiad, **gofynnodd** y Pwyllgor iddo gynnwys ystod o ddewisiadau posibl yn ogystal â benthyca a gofynnodd am y cyfle i ystyried yr adroddiad cyn penderfynu neu gael Briff i Aelodau ymlaen llaw. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Rhagfyr 2025 |

## 126. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD**:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys y canlynol, ei fod yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith fel y byddai wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.<br><br>Bod adroddiad ar Brif Gynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr i gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor i gael ei ystyried cyn gynted ag y bo modd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Rhagfyr 2025 |

## 127. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Rhagfyr 2025 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:14.